ADRODDIAD SENEDD YR YSGOL - HYDREF 2024

SCHOOL PARLIAMENT REPORT - AUTUMN 2024

LLAIS LLANTRISANT *LLANTRISANT VOICE*

Eto eleni, bydd pwyllgor Llais Llantrisant yn cwrdd yn fisol er mwyn dewis 'Hawl y Mis' ac yn cyflwyno yr hawl yn fisol mewn gwasanaeth, fel bod disgyblion yr ysgol gyfan yn deall yr hawl. Rydym yn parhau i agor y blychau o gwmpas yr ysgol i weld os oes unrhyw awgrymiadau er mwyn sicrhau ein bod yn gwrando ar lais pob disgybl. Mae llawer o waith effeithiol yn mynd ymlaen yn yr ysgol o ran dysgu am hawliau a chydraddoldeb felly byddwn yn gobeithio gweithio tuag at gymhwyster fel 'Ysgol Sy'n Parchu Hawliau'. Yn ogystal, yn yr wythnosau nesaf byddwn yn edrych ar werthoedd a gweledigaeth yr ysgol gyda'r staff i ddiweddaru a mireinio gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu ein syniadau ni.

Again this year, the Llantrisant Voice committee will meet monthly in order to choose the 'Right of the Month' and we will be presenting the right monthly in an assembly, so that the pupils of the whole school fully understand the right. We continue to open the suggestion boxes around the school to see if there are any suggestions in order to ensure that we listen to the voice of every pupil. There is a lot of effective work going on in the school in terms of learning about rights and equality so we will look at the possibility of gaining a qualification as a 'Rights Respecting School'. In addition, during the coming weeks, we will look at the school's values and vision with the staff to update and refine, ensuring that they are still relevant and reflect our ideas.

DINASYDDION DOETH *WISE CITIZENS*

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, bydd y Dinasyddion Doeth yn parhau i weithio tuag at ennill gwobr efydd Eco Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf, trwy ailgylchu hen gardiau Nadolig yn ystod mis Ionawr, bocsys wyau Pasg ym mis Ebrill a chywaith garddio yn ystod tymor yr Haf. Mi fydd hyn yn adeiladu ar lwyddiant ddiweddar yr ysgol wrth adnewyddu'r faner platinwm am y 3ydd tro. Yn ogystal â hyn, mae pwyllgor y Dinasyddion Doeth wedi creu cystadleuaeth cynllunio poster 'Diogelwch y Ffordd' ar gyfer tymor yr Hydref er mwyn hybu 'Wythnos Diogelwch y Ffordd' mis Tachwedd. Hefyd, mae'r pwyllgor wedi lansio cystadleuaeth 'creu addurn Nadolig Eco gyfeillgar' yn ystod mis Tachwedd. Yn ystod mis Rhagfyr mi fydd yr ysgol gyfan yn cael y cyfle i bleidleisio am eu hoff addurn Nadolig.

During this academic year, the Wise Citizens will continue working towards achieving the bronze Eco award organised by Rhondda Cynon Taff Council, by recycling old Christmas cards during January, Easter egg boxes in April and running a gardening project during the Summer term. This will build on the school's recent success in renewing the platinum flag for the 3rd time. In addition to this, the Wise Citizens committee have created a 'Road Safety' poster design competition during the Autumn term in order to promote 'Road Safety Week' in November. Also, the committee have launched an 'Eco friendly Christmas decoration' competition during November. During December, the whole school will have the opportunity to vote for their favourite Christmas decoration.

Y CRIW CYMWYNASGAR *THE HELPING HANDS*

Rydyn ni fel aelodau o'r Criw Cymwynasgar yn awyddus y flwyddyn hon i barhau i helpu pobl yn y gymuned yn ogystal â disyblion ein hysgol. Rydym yn parhau i sicrhau fod disgyblion yn hapus ar yr iard a gwneud yn siŵr nad oes neb ar eu pennau eu hunain, yn ogystal â chwarae gemau buarth gyda plant iau. Penderfynon ni i ofyn i'r disgyblion ddod â chyfraniadau bwyd i mewn i'r ysgol adeg y cynhaeaf ar gyfer Banc Bwyd Taf Elai, oedd yn ddiolchgar iawn. Rydym hefyd wedi trefnu digwyddiad i ddathlu Diwrnod Caredigrwydd Cenedlaethol. Bydd holl ddisgyblion yr ysgol yn cwblhau gweithgareddau amrywiol i hybu caredigrwydd a byddwn yn creu arddangosfa er mwyn dathlu ac annog caredigrwydd.

We, as members of the Helping Hands committee, are hoping to continue helping people in the community as well as the pupils of our school during the coming year. We continue to ensure that pupils are happy in the yard and make sure that no one is alone, as well as playing yard games with younger children. We decided to ask the pupils to bring food donations into the school at harvest time and the Taff Elai food bank were very grateful for these donations. We have also organised an event to celebrate National Kindness Day. All pupils at the school will complete various activities to promote kindness and we will create an exhibition to celebrate and encourage kindness as well.

YSGOLION IACH *HEALTHY SCHOOLS*

Y tymor yma mae'r pwyllgor Ysgolion Iach wedi bod yn brysur yn trefnu sawl menter i gefnogi lles eu cyfoedion ac elusen Plant Mewn Angen. Dechreuom trwy gynllunio taith gerdded hyd arfordir Cymru, gyda'r nod o godi arian i gefnogi elusen Plant Mewn Angen. Yn ogystal â hyn, cynhaliodd y pwyllgor archwiliad trylwyr o offer buarth yr ysgol, gan nodi meysydd i'w gwella a sicrhau bod yr iard yn ddiogel ac yn ddeniadol i'r holl ddisgyblion. Er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r gemau buarth newydd, crëwyd amserlen fanwl, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i chwarae a chadw'n heini yn ystod amser egwyl. I ddangos gwerthfawrogiad am rodd hael y GRhA o'r offer newydd, ysgrifennodd y pwyllgor lythyr o ddiolch, yn cydnabod eu cefnogaeth ac yn diolch am helpu i wneud y maes chwarae yn le cyffrous a chynhwysol i bawb.

This term the Healthy Schools committee has been busy organising several initiatives to support both the well-being of our peers and children in need. We kicked off our efforts by planning a fundraising walk the length of the coastal path of Wales, with the goal of raising money to support Children in Need. In addition, the committee conducted a thorough audit of the school's yard equipment, identifying areas for improvement and ensuring the playground was safe and engaging for all students. To maximize the use of the new yard games, we created a detailed timetable, ensuring that all children had the opportunity to play and stay active during recess. To show appreciation for the PTA's generous donation of the new equipment, the committee wrote a thank you letter, acknowledging our support and expressing gratitude for helping make the playground a more exciting and inclusive space for everyone.



Y CRIW DIGIDOL *THE DIGITAL CREW*

Ers i ni ffurfio'r Criw Digidol newydd ym mis Medi, rydyn ni wedi bod yn brysur iawn ac wedi cael llawer o hwyl yn helpu gyda thechnoleg yn ein hysgol! Rydyn ni wedi sicrhau bod yr holl offer TGCh yn cael eu gwefru bob dydd, fel eu bod yn barod i bawb eu defnyddio. Rydyn ni wir yn awyddus i barhau i ddatblygu'r defnydd o MicroBits, BeeBots-BlueBots, Minecraft a chodio yn ein gwersi gan greu pecynau syniadau i helpu'n cyfoedion i ddatblygu eu sgiliau. Mae gennym syniad gwych arall hefyd: rydyn ni eisiau dechrau clwb amser cinio fel y gall unrhyw un sy'n caru defnyddio TGCh ddod i ddysgu pethau newydd gyda meddalwedd gwahanol. Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn hwyl i lawer o ddisgyblion!

Since we formed the new Digital Crew in September, we've been very busy and have had lots of fun helping with technology in our school! We've made sure that all the ICT devices are plugged in and charged every day, so they're ready for everyone to use. We've also been talking about what we'd love to do next. We're really interested in continuing to develop the use of Micro:Bits, Bee-Bots-BlueBots, Minecraft and coding in our lessons across all areas of learning. We will create some resource packs in order to help our peers develop their skills further. We've had another great idea too: we want to start a lunchtime club so that anyone who loves using ICT can come and learn new things with different software. We think this would be fun for lots of pupils and help us learn even more!



Y CRIW CYMRAEG *THE WELSH CREW*

Mae'r Criw Cymraeg wedi penderfynu eleni i barhau i roi bathodynau i ddau blentyn o bob dosbarth yn wythnosol sydd wedi gwneud ymdrech dda i ddefnyddio'r iaith. Y plant hyn fydd "Dreigiau'r Dosbarth" i gynorthwyo'r Criw i hybu'r iaith tu fewn a thu allan yr ystafell ddosbarth. Mae'r Criw wedi creu poster i'w anfon at y rhieni i esbonio pwrpas y bathodynau a sut gall y rhieni gefnogi eu plentyn i ennill bathodyn. Bydd cystadleuaeth yn cael ei osod i'r plant gynllunio sticer newydd sbon ar gyfer plant Meithrin i Flwyddyn 2. Bydd plant Blwyddyn 3-6 yn ennill tocyn iaith fydd yn cael ei roi gan aelodau'r Criw Cymraeg, a bydd y plant hynny wedyn yn ennill pwynt i'r dosbarth ar y Siart Iaith fel rhan o gystadleuaeth wythnosol y dosbarthiadau. Mae aelodau Blwyddyn 6 yn parhau i helpu dewis Trac a chystrawen yr wythnos.

The Criw Cymraeg have decided this year to continue giving badges to two children from each class weekly who have made a good effort to use the language. These children will be the "Dreigiau'r Dosbarth" (the Class Dragons) to help the Criw Cymraeg to promote the language inside and outside the classroom. The Criw Cymraeg have created a poster to send to the parents to explain the purpose of the badges and how the parents can support their child to earn a badge. A competition will be set up for the children to design a brand new sticker for Nursery to Year 2 children. The children will win a sticker for speaking Welsh in the yard and the Criw Cymraeg will be responsible for giving them to the children. Year 3-6 children will win a "Tocyn iaith" (language ticket) which will be given by members of the Criw Cymraeg, and those children will then win a point for the class on the "Siart Iaith" (Language Chart) as part of the classes' weekly competition. Year 6 members will continue to help choose the Track of the Week and phrase of the week.